



CANOLFAN
MILENIWM
CYMRU
WALES
MILLENNIUM
CENTRE^{CS}

Cwynion

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn ymrwmo i sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn llawn â safonau'r iaith Gymraeg, ond weithiau gall pethau fynd o chwith. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddysgu pan mae rhywbeth yn mynd o'i le ac i gywiro ein camgymeriadau.

Gallwch gwyno os ydych yn teimlo ein bod wedi methu cydymffurfio â'r safonau; rydyn ni'n croesawu eich sylwadau ac yn gweld hyn fel cyfle i wella.

Sut i gwyno

Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn unol â phroses gwyno a sylwadau'r Ganolfan. Gallwch anfon cwyn atom trwy:

- Lythyr – Canolfan Gyswllt, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd, CF10 5AL
- Ffôn – 029 2063 6464
- E-bost – adborth@wmc.org.uk

Bydd ein Canolfan Gyswllt yn cofnodi ac yn ymateb i gwynion. Byddwch chi'n derbyn cydnabyddiaeth ac ymateb llawn o fewn 10 diwrnod.

Ymchwilio

Byddwn yn ymchwilio i bob cwyn gan ddilyn ein gweithdrefnau corfforaethol gydag aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn arwain. Bydd yr ymchwiliad yn ceisio darganfod os ydym wedi:

- gwneud camgymeriad
- methu â dilyn trefn neu broses
- heb roi proses mewn lle i sicrhau cydymffurfio gyda'r safonau

Datrys a dysgu gwersi

Unwaith i ni dderbyn cwyn ac ymchwilio, byddwn yn cymryd camau priodol i ddatrys y sefyllfa. Gall hyn gynnwys addasu neu ddatblygu gweithdrefn, neu gynnig hyfforddiant i'n staff. Ein hamcan fydd sicrhau na fydd yr un camgymeriad yn cael ei wneud eto.

Monitro

Byddwn yn monitro cwynion iaith, ac yn rhoi adborth yn rheolaidd arnynt i'n rheolwyr a'n staff. Bydd unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r safonau yn cael eu hadrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

wmc.org.uk
029 2063 6464

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg



CANOLFAN
MILENIWM
CYMRU
WALES
MILLENNIUM
CENTRE^R